**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Seneddeaal@senedd.wales

1 Gorffennaf 2020

Annwyl David,

Fel yr addewais yn fy llythyr dyddiedig 29 Mehefin ynglŷn â chloriannu'r negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi rhagor o fanylion am feysydd y Fframweithiau blaenoriaeth.

Y nod yw y bydd **pob** fframwaith, erbyn diwedd 2020, wedi llwyddo i gael o leiaf Gytundeb Amlinellol Fframwaith, a fydd wedi cael cadarnhad amodol gan weinidogion ac y gellir ei roi ar waith ar ffurf ddrafft. Byddai'r Cytundeb Amlinellol ar gyfer pob Fframwaith yn cynnwys, o leiaf: amserlen gyflawni, trefn lywodraethu glir ar draws y llywodraethau perthnasol (gan gynnwys sut y gellid rheoli gwahaniaethau), mecanwaith osgoi a datrys anghydfod, a datganiad o ddiben i gadarnhau ein hymrwymiad ar y cyd i ddatrys hyn yn gynnar. Bydd hyn yn sicrhau'r lefel isaf bosibl o ran gallu, tra'n cydnabod bod yn rhaid i'r Fframweithiau fynd drwy gyfnod craffu deddfwriaethol llawn, yn unol â mandad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion, yn y Senedd ac yn y tair deddfwrfa arall.

O ystyried y cyfyngiadau o ran amser ac adnoddau swyddogion, mae'n bosibl na fydd rhai Fframweithiau yn gallu cwblhau Cytundeb Amlinellol safonol gofynnol mewn pryd. Lle bo hyn yn wir, bydd trefniant dros dro o fath arall yn cael ei sefydlu, os bydd angen, cyn diwedd y flwyddyn.

Gwneir pob ymdrech i gadw'r achosion hyn i'r lleiafswm, ac er mwyn sicrhau cynnydd yn y Fframweithiau pwysicaf mae'r pedair llywodraeth wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â'r Fframweithiau blaenoriaeth. Mae pwyntiau trafod yn y rhestr o hyd ond, yn fras, mae cytundeb y dylid ystyried y Fframweithiau canlynol yn Fframweithiau blaenoriaeth, ac mae bron y cyfan ohonynt o fewn portffolio'r amgylchedd, ynni a materion gwledig:

- System Masnachu Allyriadau
- Cymorth Amaethyddol
- Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoleiddio Cemegion (gan gynnwys Plaladdwyr)
- Diogelwch a Hylendid Bwyd a Phorthiant

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Iechyd Planhigion, Hadau a Deunyddiau Lluosogi
- Gwastraff ac Adnodddau
- Safonau Labelu a Chyfansoddiad Bwyd
- Maeth

Bydd y pedair Llywodraeth yn parhau i ddatblygu pob Fframwaith, a rhagwelir y byddant wedi'u cwblhau (gan gynnwys y craffu deddfwriaethol) yn ystod 2021. Byddaf, wrth gwrs, yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition